**Dinas a Sir Abertawe**

**Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet**

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 21 Ebrill 2022 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | R Francis-Davies | D H Hopkins |
| E J King | A S Lewis | A Pugh |
| R V Smith | A H Stevens | M Thomas |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): L S Gibbard

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): -

---

## 151. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd E J King gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 156 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdodau Lleol" a gadawsant y cyfarfod cyn ei ystyried.

2) Datganodd y Cynghorydd R V Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 156 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol", a dywedodd ei fod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

## 152. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2022.

## 153. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### 1) Cynghorwyr sydd wedi gwasanaethu fel Aelodau’r Cabinet yn ystod 2017-2022 sy'n ymddiswyddo yn ystod yr Etholiadau Llywodraeth Leol ar 5 Mai 2022

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y Cynghorwyr J E Burtonshaw, M C Child, W Evans, C E Lloyd, J A Raynor, C Richards, M Sherwood a M Thomas wedi penderfynu ymddiswyddo yn yr etholiadau sydd ar ddod ym mis Mai 2022. Mae pob un o'r rheini a enwir wedi gwasanaethu fel Aelodau'r Cabinet yn ystod tymor y cyngor 2017-2022. Diolchodd a thalodd deyrnged iddynt am eu cyfraniad rhagorol ac ymroddedig i Gyngor Abertawe a'r Cabinet.

### 2) Phil Roberts, Prif Weithredwr - Ymddeoliad

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai Phil Roberts, Prif Weithredwr, yn ymddeol ar ddiwedd mis Mai 2022. Talodd deyrnged i Phil Roberts am ei gyfraniad rhagorol ac ymroddedig i Gyngor Abertawe dros y 36 o flynyddoedd diwethaf.

## 154. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 155. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 156. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Cadle | Y Cynghorydd Elliott King |
| 2) | Ysgol Gynradd Cwmglas | Dr Amanda Roberts |

## 157. Cynllun Cymorth Costau Byw - Elfennau Gorfodol a Dewisol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth am y cynllun gorfodol ac yn ceisio ystyriaeth o'r pwerau disgresiwn eang sydd hefyd ar gael i'r awdurdod dan Gynllun Cymorth Costau Byw Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ariannol di-oed i ddeiliaid tai yr ystyrir bod angen cymorth gyda chostau byw arnynt.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi manylion y cynllun gorfodol a nodir yn yr adroddiad, a'u bod eisoes wedi'u rhoi ar waith.

2) Nodi manylion y pwerau disgresiwn sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Cymorth Costau Byw.

3) Cymeradwyo'r categorïau a'r symiau canlynol fel sail ar gyfer taliadau dewisol dan y Cynllun Cymorth Costau Byw:

a) Telir £150 i’r rheini sy’n derbyn rhyddhad Treth y Cyngor a ddyfarnwyd mewn perthynas â:

- Phobl sy'n gadael gofal.
- Pobl â Nam Meddyliol Difrifol.
- Deiliad rhai rhandai hunangynhwysol.
- Preswylwyr dan 18 oed.
- Preswylwyr cartrefi gofal.
- Pobl sy'n byw yn rhywle arall gan eu bod yn derbyn gofal.
- Pobl sy'n byw yn rhywle arall gan eu bod yn darparu gofal.
- Myfyrwyr sy'n astudio yn rhywle arall.

b) Categorïau eraill y gwneir taliad o £150 ar eu cyfer:

- Aelwydydd sydd mewn anheddau domestig ym mandiau F i I y mae gostyngiad addasu i'r anabl wedi'i gymeradwyo ar eu cyfer.
- Tenantiaid Cyngor Abertawe nad ydynt yn derbyn cymorth gan Fudd-dal Tai (BT) neu Gredyd Cynhwysol (CC) – yn ychwanegol at unrhyw brif daliad cynllun y mae ganddynt hawl iddo.
- Unrhyw aelwyd y gall Cyngor Abertawe nodi ei bod yn gymwys ar gyfer taliad £150 o'r prif gynllun ac mae'n ofynnol iddi gofrestru am daliad ond nad yw wedi gwneud hynny erbyn pythefnos cyn i'r cynllun gau.

c) Mesurau ychwanegol

- £52,500 i'w roi mewn cronfa cymorth costau tanwydd i'w ddefnyddio i gefnogi pobl sy'n ei chael hi'n anodd talu costau tanwydd.
- • £28 i'w dalu i bob aelwyd mewn anheddau domestig ym mandiau Treth y Cyngor A a B (yn ogystal ag unrhyw daliad sengl arall o £150 y mae ganddynt hawl iddo eisoes o'r prif gynllun neu gynllun dewisol). Un taliad yr eiddo.

ch) Yr uchafswm taliad i un aelwyd o'r Cynllun Cymorth Costau Byw yn ei chyfanrwydd fydd £300.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.20 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 21 Ebrill 2022 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 26 Ebrill 2022 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 27 Ebrill 2022 |